**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Health and Social Care Committee**

**Ann Jones AC**
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

17 Tachwedd 2014

Annwyl Ann,

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn adeiladu ar ei waith mewn perthynas â sylweddau seicoweithredol newydd ("cyffuriau penfeddwol cyfreithlon") drwy gynnal ymchwiliad i gamddefnyddio alcohol a sylweddau yng Nghymru.  Yn yr ymchwiliad, byddwn yn ystyried:

- effeithiau camddefnyddio alcohol a sylweddau ar bobl yng Nghymru, gan gynnwys pobl ifanc a myfyrwyr prifysgol; pobl hŷn; pobl ddigartref; a'r bobl yn nalfa'r heddlu neu mewn carchardai;

- effeithiolrwydd polisïau presennol Llywodraeth Cymru ar fynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol a sylweddau ac unrhyw gamau pellach y gallai fod eu hangen;

- pa wasanaethau sydd ar gael yn lleol ar draws Cymru i godi ymwybyddiaeth o effaith y niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol a sylweddau a chapasiti'r gwasanaethau hynny.

Lansiwyd ein galwad am dystiolaeth ddydd Llun 10 Tachwedd.  Er mwyn cynorthwyo pobl i ymateb i'r ymchwiliad, rydym hefyd yn bwriadu cyhoeddi holiadur ar-lein am y cylch gorchwyl, ac arolwg dienw ar-lein ar gyfer pobl ifanc i sicrhau eu bod yn gallu cyfrannu at yr ymchwiliad pe baent yn dymuno gwneud hynny.

Er bod testun yr ymchwiliad yn dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, rwy'n gwerthfawrogi ei fod yn faes a allai fod o ddiddordeb i aelodau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Gyda hynny mewn golwg, byddaf yn gofyn i'r Clerc, Helen Finlayson, sicrhau bod cydweithwyr sy'n cefnogi'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cael gwybod am gynnydd yr ymchwiliad, a byddaf yn sicrhau bod copi o'n hadroddiad terfynol yn cael ei rannu gyda chi.

Yn gywir,



**David Rees AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol